**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: MA HIDCC 1447 25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

15 Rhagfyr 2025

Annwyl Mike,

**Rheoliadau Deddf Amrywogaethau Planhigion (Diwygio) 2026**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2026 ("y Rheoliadau"). Gwneir y Rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Adran 14 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r diffiniad o "ffermwr bach" yn adran 9(10) o Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997 ("Deddf 1997") er mwyn darparu diffiniad cliriach yn unol â'r bwriad polisi ac i ddileu'r posibilrwydd o ddryswch yn ei ddehongliad. Mae'r diffiniad o "ffermwr bach" yn gysylltiedig â'r eithriad yn adran 9(4) a thalu tâl teg i ddeiliaid hawliau bridwyr planhigion (math o eiddo deallusol). Bwriad y polisi oedd ac yw i'r elfen o'r eithriad "ffermwr bach" yn adran 9(10)(b) fod yn berthnasol i swm y mathau a dyfir mewn ardal, nid i bob math a dyfir mewn ardal. Bydd hyn yn sicrhau bod y taliadau arfaethedig yn cael eu gwneud i ddeiliaid hawliau bridwyr planhigion, gan gefnogi arloesedd a buddsoddiad mewn bridio planhigion.

Yn unol â rheol sefydlog 30A, credaf fod y Rheoliadau yn offeryn statudol perthnasol, gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru drwy ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Felly, bydd memorandwm cydsyniad offeryn statudol yn cael ei osod o fewn tri diwrnod gwaith i'r Rheoliadau gael eu gosod gerbron Senedd y DU.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu ar lefel Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Hawliau Bridwyr Planhigion yn cael eu gweinyddu gan 'Reolwr' y Swyddfa

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hawliau Amrywogaethau Planhigion. Penodir y Rheolwr gan Weinidogion Cymru, y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae swyddogion o bob Llywodraeth yn gweithio o dan Fframwaith Cyffredin dros dro y DU ar Amrywogaethau a Hadau Planhigion. Mae'r ddarpariaeth y mae'r Rheoliadau yn ei diwygio yn Neddf 1997 yn ymestyn i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r polisi sy'n sail i'r Rheoliadau wedi'i alinio ar draws eu priod Lywodraethau ac mae'r dull diwygio hwn yn sicrhau alinio'r gyfundrefn hawliau bridwyr planhigion yn amserol ar draws eu tiriogaethau.

Er na fydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud yn ddwyieithog, nodaf nad oedd Deddf 1997 ei hun wedi'i gwneud yn ddwyieithog.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 20 Ionawr.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs